Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwahoddiad i Ddatganiadau o Ddiddordeb

# Cyfleoedd Secondiad Proffesiynol i ddatblygu cynllun gweithredu ymchwil Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd i Gymru

Rydym yn chwilio am 2 ddeiliad swydd rhan amser (hyd at 3 diwrnod yr un i rannu swydd) i weithio ar y cyd â'r Prif Swyddog Nyrsio, Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Phrif Gynghorydd Ymchwil a Datblygu/Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (yn Llywodraeth Cymru) i wneud gwaith prosiect penodol i ddatblygu cynllun gweithredu ymchwil strategol i Gymru ar gyfer Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP)

**Mae 2 swydd ar gael – 2/3 diwrnod yr wythnos. Bydd trefniadau secondiad yn cael eu rhoi ar waith i alinio'r prosiect â Rhaglen Cymrodyr Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â'r garfan bresennol o gymrodyr. Telir yr un cyflog â'r cyflog presennol. Rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r arbenigedd, y sgiliau a'r profiad proffesiynol cywir yn hytrach na band cyflog penodol. Rydym yn chwilio am un swydd ag arbenigedd mewn perthynas â'r agenda nyrsio a'r llall o un o'r 13 o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd HCPC.**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am swydd secondiad, rhaid i chi gael caniatâd eich rheolwr llinell presennol cyn cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb.

Bydd y prosiect am gyfnod o 12 mis ac yn ddelfrydol, yn dechrau ym mis Tachwedd 2023 neu ar ddyddiad y cytunwyd arno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

## Sut i ymgeisio:

Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb ar ffurf dogfen 1 dudalen yn **amlinellu eich addasrwydd i ymgymryd â'r prosiect hwn**, i'w chyflwyno i healthandcareresearch@wales.nhs.uk **erbyn15:00 ar 20 Medi 2023**.

Gofynnir i ymgeiswyr gynnwys manylion eu profiad perthnasol a dangos sut y gallant fodloni'r sgiliau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd(i).

Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, trefnir cyfweliadau anffurfiol a byddant yn canolbwyntio ar y tasgau allweddol a’r sgiliau sy’n ofynnol ar gyfer y swydd(i), fel y nodir isod.

## Pwrpas y swydd:

Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn gweithio’n agos gydag uwch gydweithwyr yn Swyddfa’r Prif Swyddog Nyrsio, tîm y Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd ac Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru.

Mae’r swydd yn cyflwyno cyfleoedd datblygu sylweddol i ddeiliaid y swydd sy’n darparu profiad uniongyrchol o’r broses o ddatblygu strategaeth, cyswllt ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, y GIG, gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), gofal cymdeithasol, asiantaethau’r sector gwirfoddol, SAUau a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru a thu hwnt, a rolau a sefydliadau cyfatebol ledled y DU. Bydd datblygu cynllun gweithredu strategol ymchwil yn nodi camau a gweithredu allweddol a bydd angen perchnogaeth a llywodraethu i gyflawni nodau penodol.

Bydd yn galluogi deiliad y swydd i ddychwelyd i’w sefydliad yn ystod 2024 fel unigolyn arbenigol a gwybodus a hyrwyddwr ar gyfer yr agenda ymchwil nyrsio a/neu Broffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP).

## Cefndir:

Mae Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn chwarae rhan fawr wrth gyflawni nodau megis gwella iechyd y boblogaeth, gofalu am bobl gydol eu hoes, yn ystod salwch a hyd at adferiad ac ar ddiwedd oes, yn ogystal â thrwy atal salwch, amddiffyn iechyd a hybu llesiant. Gwnânt hynny drwy weithio mewn ffyrdd gwahanol iawn, addasu i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau, a sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel mewn amgylcheddau dan bwysau, cymhleth ac aciwtedd uchel ar draws yr holl sectorau. Mae’n cael ei gydnabod yn eang bod eu gwaith ym meysydd ymchwil, academia, arloesi ac ymarfer yn hanfodol i ddiogelwch cleifion a darparu’r gofal gorau posibl ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cynllun Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer 2022-2025 yn nodi sut mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwriadu adeiladu ar etifeddiaeth y pandemig COVID-19 i wella’r holl ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i osod y sylfeini ar gyfer canlyniadau gwell i gleifion, pobl a chymunedau ledled Cymru.

Mae gan Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n arwain, yn cynnal ac yn darparu ymchwil ar draws y GIG a gofal cymdeithasol gyfraniad hanfodol i'w

wneud i'r agenda hon. Mae ymchwil a arweinir gan nyrsys ac AHP sy’n cofleidio arfer yn seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol i wella gofal iechyd yn barhaus, ac mae eu cyfraniadau fel aelodau o dimau ymchwil amlbroffesiynol yn ysgogi newid ac yn ymgorffori gofal o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

At hynny, mae pedair gwlad y DU hefyd wedi nodi amrywiaeth o uchelgeisiau yn *Arbed a Gwella bywydau: dyfodol darpariaeth ymchwil clinigol yn y DU*[1], a bydd rôl nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn hollbwysig wrth helpu Cymru i gyflawni’r camau y cytunwyd arnynt o ran: gwreiddio ymchwil wrth galon gofal cleifion; gwneud cymryd rhan mewn ymchwil mor hawdd â phosibl, a chreu amgylchedd ymchwil sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae gweithredu’r weledigaeth hon a’i chynlluniau gweithredu cysylltiedig hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod yr holl staff iechyd a gofal yn teimlo eu bod wedi’u grymuso i arwain, defnyddio, darparu a chymryd rhan mewn ymchwil fel rhan o’u rôl, a’u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth wneud hynny.

Felly mae’r Prif Swyddog Nyrsio, y Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Phrif Gynghorydd Ymchwil a Datblygu/ Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyhoeddi cynllun gweithredu strategol ar gyfer ymchwil i nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a fydd yn cwmpasu’r maes academaidd ac ymarfer ac yn chwilio am feddyliwr gwybodus ac arloesol i arwain ei ddatblygiad. Bydd y cynllun gweithredu strategol ymchwil yn sail i *Mae ymchwil yn bwysig: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru*[2] gan gydnabod yr angen i weithredu ar flaenoriaethau proffesiynol allweddol i ehangu a chyflymu cynnydd.

## Prif dasgau a chanlyniadau

- Sganio'r gorwel o strategaethau a chynlluniau tebyg ar draws iechyd a gofal cymdeithasol y DU, ac ecosystem SAU yn ogystal â meincnodi y tu hwnt i'r DU i nodi arfer gorau a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu a datblygu gallu ymchwil mewn perthynas â chynnwys nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, o ran ei arwain a'i gyflwyno.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, AaGIC, cyrff perthnasol eraill a rhanddeiliaid allweddol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol ac eco-system SAUau yng Nghymru i ddeall y gwahanol bolisïau a mentrau sydd ar y gweill - gyda'r bwriad o gydblethu a dylanwadu.
- Cynnal adolygiad manwl o iechyd a gofal cymdeithasol a'r dirwedd academaidd yng Nghymru i nodi themâu ymchwil allweddol, arweinwyr ymchwil, meysydd cryfder, a chryfder posibl. Mae angen i'r adolygiad archwilio'r canlynol:

---

[1] Llywodraeth y DU yn nodi gweledigaeth fentrus ar gyfer dyfodol cyflenwi ymchwil clinigol
[2] Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn nodi ei uchelgeisiau mewn cynllun tair blynedd newydd

    - *Maes/pwnc/natur yr ymchwil*
    - *Pwy yw'r chwaraewyr allweddol yng Nghymru a ble maen nhw?*
    - *Beth yw’r capasiti – i gynnwys timau o ymchwilwyr a chyfleusterau?*
    - *Beth maen nhw'n ei wneud/ wedi'i wneud – prosiectau/canfyddiadau mawr, incwm grant, ac ati?*
    - *Beth yw'r allbynnau a'r effeithiau?*
    - *Cyhoeddiadau/darganfyddiadau/effeithiau?*
    - *Gyda phwy maen nhw'n gweithio yn y DU ac yn rhyngwladol – partneriaid, rhwydweithiau?*
    - *Pwy yw'r prif gystadleuwyr yn y maes hwn yn y DU a sut mae Cymru'n cymharu â nhw/yn ffitio i mewn i'r dirwedd?*
    - *Tystiolaeth o barch*
    - *Cynlluniau a datblygiadau ar gyfer y dyfodol – sut y gallant symud ymlaen?*
- Sefydlu grŵp rhanddeiliaid, wedi'i gadeirio gan Lywodraeth Cymru i roi cyngor ar ddatblygu cynllun gweithredu strategol gydag argymhellion clir a diriaethol ac amserlenni ar gyfer cyflawni.
- Gan ddefnyddio tystiolaeth o'r gweithgaredd adolygu a chyngor gan y grŵp rhanddeiliaid, cynhyrchu cynllun gweithredu strategol drafft y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo i'w gyhoeddi yn ystod 2024.

## Sgiliau/cymwyseddau allweddol sy'n gysylltiedig â'r ddwy swydd

1. Rydym yn chwilio am unigolion profiadol sydd â dealltwriaeth ymarferol o ymchwil naill ai yn y proffesiwn AHP neu'r proffesiwn Nyrsio. Mae’r rolau hyn yn debygol o apelio at unigolion cofrestredig o’r proffesiynau, neu gydweithwyr ymchwil/academaidd sydd â phrofiad gwaith agos o’r sector iechyd a gofal.

2. Cyfathrebwr ysgrifenedig a llafar rhagorol gyda gallu profedig i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda rhanddeiliaid, gan ddod ag ystod o farn a safbwyntiau ynghyd.

3. Dadansoddi a gwerthuso data o ffynonellau amrywiol i nodi'r prif faterion er mwyn gwneud penderfyniadau ystyriol.